



RHONDDA CYNON TAF

At Rhieni/Gwarcheidwaid Disgyblion sy'n
sylw: mynychu Ysgolion Cynradd, Ysgolion
Uwchradd, Ysgolion Pob Oed
ac Ysgolion Arbennig

Gofynnwch am:
Please ask for:
Rhif ffôn:
Telephone N°:
Ffacs:
Fax:
E-bost:
E-mail:
Cylchlythyr:
Circular:

Lisa Kidner

Fy nghyf: LK
My ref:

Eich cyf:
Your ref:

Dyddiad: 18 Mawrth 2024
Date:

Annwyl Riant/Gynhaliwr,

Parthed: Prisiau Prydau Ysgol 2024/25

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Ionawr 2024, penderfynwyd cynyddu prisiau prydau ysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd 2024/2025. Hoffwn roi gwybod i chi y bydd pris prydau ar gyfer disgyblion yn cynyddu o ddydd Llun 8 Ebrill 2024. Dyma'r prisiau newydd: -

- Cynradd - £2.85 (dim ond yn berthnasol i ddisgyblion Meithrin nad ydyn nhw eto'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim i ddisgyblion Cynradd)
- Uwchradd - £3.10

Amcan Gwasanaethau Arlwyo Rhondda Cynon Taf yw cynnig pryd maethlon ac iachus amser cinio. Mae bwydlenni ar gael ar wefan y Cyngor. Mae staff arlwyo yn yr ysgol yn hapus i helpu a darparu'r bwydlenni ichi. Maen nhw hefyd yn gallu darparu bwyd ar gyfer anghenion deietegol arbennig yn ôl gofynion meddygol neu ddeietegol.

Mae modd i'r bwydydd a'r diodydd gaiff eu darparu mewn ysgolion wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynnig deiet iach a chytbwys i blant a phobl ifainc, yn ogystal â'u hannog nhw i ddatblygu arferion bwyta da.

Os nad yw eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim ac rydych chi'n meddwl bod gyda'ch plentyn hawl i brydau ysgol am ddim, llenwch y ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar wefan y Cyngor ([Prydau Ysgol am Ddim - Cyflwyno cais am brydau ysgol am ddim | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](#)). **Dim ond** drwy wneud cais llwyddiannus am brydau ysgol am ddim y bydd eich plentyn yn gymwys i dderbyn cymorth arall yn awtomatig.

Yn gywir,

LJ Kidner

Lisa Kidner

Rheolwr Materion Busnes, Gwasanaethau Arlwyo

Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant/Education and Inclusion Services Ffôn/Tel: 01443 744000

Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN

Valleys Innovation Centre, Navigation Park, Abercynon CF45 4SN

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

